

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 - DYDD LLUN, 4 RHAGFYR 2023

COFNODION O GYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, ANGEL STREET, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD LLUN, 4 RHAGFYR 2023 AM 11:00

Presennol

Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

RJ Collins
M Jones
E D Winstanley

M J Evans
J Llewellyn-Hopkins

H Griffiths
T Thomas

D M Hughes
AJ Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

I M Spiller

Swyddogion:

Stephen Griffiths
Rachel Keepins

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Gwahoddedigion:

Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell

Aelod cabinet dros Addysg

Robin Davies
Lindsay Harvey
Chris Jones
Louise Kerton
Jonathan Lewis
Anthony Morrison
Robbie Owen

Rheolwr Grŵp - Strategaeth Busnes a Pherfformiad
Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Pennaeth, Ysgol Gynradd Llangynwyd
Rheolwr Tîm, Gwasanaethau Arlwyo
Pennaeth, Ysgol Gynradd Coety
Pennaeth, Ysgol Gynradd Trelales
Pennaeth, Ysgol Gynradd Penybont

Datganiadau o Fuddiannau

Cynghorydd Melanie Evans – Personol – Llywodraethwr Ysgol – Ysgol Gynradd Croesty ac Ysgol Gyfun Pencoed.

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 - DYDD LLUN, 4 RHAGFYR 2023

Cynghorydd Amanda Williams – Personol – Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Coety.

Cynghorydd Tim Thomas – Personol – Llywodraethwr Ysgol, Coleg Cymunedol y Dderwen Plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llangynwyd ac Ysgol Bro Ogwr.

Cynghorydd Richard Collins – Personol – Llywodraethwr Ysgol – Ysgol Gynradd Plasnewydd a St Ysgol Gynradd Gatholig Mair a Sant Padrig.

33. Cymeradwyo'r Cofnodion

Penderfyniad a Wnaed	Fod cofnodion y 01/12/2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	4 Rhagfyr 2023

34. Cinio Ysgol Gynradd Gyffredinol (UPFSM) a Materion Gweithredol o fewn y Gwasanaeth Arlwyo

Penderfyniad a Wnaed	<p>Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r adroddiad a thrafodaethau ag aelodau'r Cabinet a'r Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau a'r argymhellion a ganlyn:</p> <p>Cyllid ac Amser ar gyfer Dysgu</p> <ul style="list-style-type: none">• Mynegodd y Pwyllgor bryderon cryf ynghylch y sefyllfa ariannol ar gyfer Darpariaeth Cinio Ysgol Rhad Ac Am Ddim (UPFSM) i Bawb o ystyried y ffaith, er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu buddsoddiad cyfalaf ar gyfer offer cegin newydd, cyfleusterau ac uwchraddio, mae goblygiadau cost Refeniw parhaus y bydd yr Awdurdod Lleol ac Ysgolion yn cael trafferth i'w hateb. Mae'r rhain yn cynnwys cost sybsideiddio prydau ysgol, cyfraddau chwyddiant bwyd, costau i fodloni gofynion newydd ar gyfer gwastraff bwyd yn ogystal â chostau sylweddol sydd eu hangen ar staff ychwanegol i ddarparu UPFSM, mewn ysgolion ac yn y Gwasanaeth Arlwyo. Felly, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a'r Iaith Gymraeg i:<ul style="list-style-type: none">○ Fynegi'r pryderon hyn a thynnu sylw at frwydr barhaus Awdurdodau Lleol ac Ysgolion i ymateb i ddeddfwriaeth a gofynion newydd heb ddarparu cyllid addas i'w gefnogi; a○ Galw ar LIC i ymrwmo i ariannu costau refeniw a chyfalaf gweithredu'r ymrwymiad polisi cenedlaethol hwn yn llawn.• Ymhellach, gofynnodd y Pwyllgor am i oblygiadau UPFSM ar amser ar gyfer dysgu gael eu
----------------------	---

	<p>hystyried fel mater o frys o ystyried bod Penaethiaid eisoes yn tynnu sylw at hyn fel pryder a fydd ond yn cael ei waethgu â chyflwyniad ychwanegol UPFSM i flynyddoedd Meithrin a Blwyddyn 5 - 6. Roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai hyn gael effaith negyddol sylweddol ar addysg disgyblion ysgol gynradd.</p> <p>Meintiau Dogn Pryd</p> <ul style="list-style-type: none">• Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch maint dognau prydau ysgol a ddarperir ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd gan fod y rhain yr un fath ar gyfer y rhai mewn darpariaeth feithrin â'r rhai ym mlwyddyn 6. Cytunwyd y byddai maint dognau ar gyfer yr amrediad oedran hwn yn debygol o amrywio'n sylweddol a naill ai'n achosi problem o wastraff bwyd gan blant iau oherwydd bod maint y dogn yn rhy fawr (yn ogystal â chostau cysylltiedig diangen), neu'r potensial i'r gwrthwyneb o ran maint dognau heb fod yn ddigon mawr i'r plant hŷn a'u bod yn parhau'n llwglyd. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn adolygu bwyta'n iach mewn ysgolion, fodd bynnag, nid oedd yn hysbys a fyddai'r adolygiad yn cynnwys ystyried maint dognau, a bennwyd, o dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Felly, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a CLILC i ofyn am gynnwys meintiau dognau yn yr adolygiad a bod hyn yn seiliedig ar dystiolaeth glir a gasglwyd gan ysgolion a disgyblion, gyda'r olaf yn cael ei wneud i sicrhau bod llais y plentyn. yn cael ei glywed. <p>Cinio Ysgol Am Ddim (eFSM) a Phrydau Ysgol Rhad ac Am Ddim i Bawb (UPFSM)</p> <ul style="list-style-type: none">• Mynegwyd pryderon ynghylch effaith bosibl UPFSM ar y rhai a allai fod â hawl i eFSM. Dywedodd penaethiaid yn y cyfarfod y bu gostyngiad mewn eFSM yn ddiweddar a allai o bosibl gael ei briodoli i gyflwyniad UPFSM. Er y byddai disgyblion yn dal i gael pryd o fwyd yn y ddau achos, gallai disgyblion gael eu rhoi dan anfantais drwy fethu a chael y cymorth ychwanegol y byddai ganddynt hawl iddo o dan eFSM. Mae hyn yn cynnwys Grant Hanfodion Ysgol bob blwyddyn i helpu tuag at gost pethau fel gwisg ysgol a chyflenwadau ysgol. Cafodd effaith hefyd ar faint o gyllid a gafodd ysgolion i gefnogi disgyblion eFSM. Mae'r Pwyllgor felly'n argymhell bod ysgolion cynradd a'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod rhieni'n cael eu hysbysu'n briodol am y gwahaniaeth rhwng y ddau a bod mateision eFSM dros UPFSM yn cael eu hysbysebu mor eang â phosibl er mwyn annog rhagor o bobl i fanteisio arnynt a sicrhau nad oes unrhyw blentyn o dan anfantais wrthdro. <p>Dewisiadau Bwydlen</p>
--	---

- Er ei fod yn gwerthfawrogi bod blaenoriaeth i gyflwyno UPFSM, mynegodd y Pwyllgor bryderon cryf ynghylch y gwerth am arian a ddarperir â chinio ysgol am ddim, o ystyried y fwydlen a bennwyd ar gyfer pob ysgol a pha mor addas ydoedd ar gyfer eu disgyblion. Mae gwybodaeth a welwyd mewn ymweliadau ysgol ac a gasglwyd gan Benaethiaid yn awgrymu bod y dewisiadau ar y fwydlen ar adegau yn arwain at lawer o wastraff bwyd a hefyd, yn fwy pryderus, achosion lle nad yw plant yn cael eu bwydo'n briodol gan nad ydynt yn hoffi'r dewisiadau sydd ar gael. Gan gydnabod bod yn rhaid i'r bwydlenni ystyried rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion, Safonau Bwyd Maethlon a'u bod wedi'u dyfeisio gan ddefnyddio'r system Saffron ar gyfer dadansoddi maeth, mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r farn a fynegwyd gan rai Penaethiaid bod angen addasu'r dewisiadau ar y fwydlen i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a chymryd mwy o ystyriaeth o farn disgyblion yn y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Mae'r **aelodau** yn argymhell y dylid edrych ar hyn cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau gwastraff, sicrhau bod disgyblion yn cael eu bwydo'n briodol, ac er mwyn i'r ddarpariaeth UPFSM newydd fod yn effeithiol a'i fod yn cyflawni ei nod cyffredinol

Staffio a Chontractau

- Mynegwyd pryderon ynghylch y nifer uchel o leoedd gwag a adroddwyd yn ymwneud â darpariaeth UPFSM a sut y byddai'r Awdurdod yn llenwi'r rhain. Mae'r Pwyllgor yn **argymhell** bod y Gyfarwyddiaeth yn edrych ar yr hyn y gallai Awdurdodau Lleol eraill fod yn ei wneud i recriwtio i'r maes gwasanaeth hwn i weld a oes rhai dulliau a ffyrdd arloesol o hysbysebu y gellid eu defnyddio ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys unrhyw gymhellion y gellid eu hystyried
- Mae'r Pwyllgor hefyd yn **argymhell** bod yr Awdurdod Lleol yn archwilio, ynghyd â Phenaethiaid a'r Gwasanaeth Arlwygo sut y gallai ysgolion sy'n agos at ei gilydd gydweithio o bosibl i gynorthwyo â darparu UPFSM yn enwedig o ran bodloni gofynion staffio o ystyried y nifer uchel o leoedd gwag a adroddwyd. Cynigiodd yr Aelodau y gallai ysgolion ystyried sut y gellid rhannu staff ar draws ysgolion, yn enwedig lle mae contractau oriau isel, a thrwy hynny ddarparu rhagor o oriau gwaith, â'r nod o ddenu pobl i'r swyddi hyn.
- Argymhellwyd **ymhell**achy dylid ceisio gwybodaeth gan AD ynghylch a ellid cyfuno a chryfhau contractau staff ar gyfer y staff hynny a allai ddal nifer o rolau llai mewn ysgolion, megis cymorth, arlwygo, cyflenwi amser cinio ac ati, a thrwy hynny gontractau lluosog.

Gwybodaeth Ychwanegol a Cheisiadau

- Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ynghylch a fyddai hysbysiad gan rieni ar ddechrau'r wythnos a fyddai plant yn cymryd eu pryd ysgol am ddim bob diwrnod o'r wythnos honno yn cynorthwyo ysgolion i gynllunio a lleihau gwastraff. Mae'r aelodau'n cofio bod hwn yn arfer bod y dull safonol ar gyfer y rhan fwyaf o ysgolion ac yn meddwl tybed a fyddai dychwelyd yn ôl at hyn o fudd, hyd yn oed yn gymaint â chynllunio ar gyfer cyflenwi staff yn ogystal â gofod bwyta yn y neuadd a nifer yr eisteddiadau prydau bwyd sydd eu hangen.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y gorwariant rhagamcanol presennol ar gyfer Gwasanaethau Arlwygo ar gyfer 2023-24 yn ogystal â dadansoddiad o'r gorwariant hwn.
- Croesawodd y Pwyllgor y cynnig gan Mr Chris Jones o Ysgol Gynradd Llangynwyd i dderbyn copi o'r wybodaeth a gasglwyd drwy arolwg byr a anfonwyd at gyd-Aelodau mewn ysgolion cynradd ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a fyddai unrhyw gosbau cyfreithiol neu ariannol posibl yn cael eu rhoi ar Awdurdodau Lleol pe na baent yn gallu darparu UPFSM yn llawn am ba resymau bynnag, boed hynny'n ddiffyg staffio neu gyfleusterau cegin er enghraifft, o ystyried bod hwn yn wasanaeth statudol yn awr.
- Gofynnodd y Pwyllgor am naill ai i adroddiad gwybodaeth neu sesiwn friffio gael ei drefnu cyn gynted â phosibl ar bwnc darpariaeth prydau Ysgol Uwchradd, o ystyried adroddiadau gan un ysgol nad oes ganddi'r capasiti i fwydo'r holl ddisgyblion sy'n gofyn amdano ac sydd felly cael eu hanfon i'r dref leol i brynu cinio yn lle hynny. Er mwyn archwilio'r mater hwn ymhellach mae Aelodau wedi gofyn am ragor o ymweliadau ag ysgolion, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth prydau ysgol uwchradd yn yr achos hwn, a chapasiti'r gwasanaeth arlwygo i ddiwallu'r angen hwn.

Ceisiadau Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch pryd y byddai adolygiad LIC o fwyta'n iach mewn ysgolion yn cael ei gwblhau ac allan ar gyfer ymgynghoriad, er mwyn iddynt allu ei ychwanegu at eu blaenraglen waith a darparu eu hmateb eu hunain.
- Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ailedrych ar yr eitem o UPFSM ar ei FWP a'i hadolygu unwaith y byddai wedi'i chyflwyno'n llawn i bob oed, ond gofynnwyd hefyd am ddiweddariad interim posibl yn May/June

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 - DYDD LLUN, 4 RHAGFYR 2023

	<p>2024 i bennu sefyllfa'r cyflwyniad a'r sefyllfa ariannol.</p> <ul style="list-style-type: none">• Fel rhan o unrhyw ystyriaeth yn y dyfodol gan y Pwyllgor ar UPFSM, gofynnodd yr Aelodau am i dystiolaeth a safbwyntiau gael eu gwahodd gan ddisgyblion er mwyn llywio trafodaethau'r Pwyllgor.• O ganlyniad i drafodaethau ynghylch oedi gydag estyniadau i ysgolion oherwydd bod angen arolygon penodol, gofynnodd y Pwyllgor, wrth ystyried Moderneiddio Ysgolion ar ei Raglen Gwaith Cychwynnol, iddynt gael y wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad y Landlord Corfforaethol er mwyn ystyried y sefyllfa bresennol ag ystad gyfan yr ysgol.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	4 Rhagfyr 2023

35. Diweddariad am y Flaenraglen Waith

Penderfyniad a Wnaed	<p>Cymeradwyodd y Pwyllgor y Rhaglen Waith i'r Dyfodol (FWP) ar gyfer y Pwyllgor sydd ynghlwm yn Atodiad A.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod Estyn yn datblygu fframwaith newydd ar gyfer eu harolygiadau ysgol ac y byddai sesiwn frifio i'r holl aelodau yn cael ei chynnal yn y Flwyddyn Newydd. Roedd Estyn hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i Graffu wneud mwy o waith monitro perfformiad ysgolion gan ystyried Adroddiadau Arolygu Estyn. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod gwaith yn cael ei wneud i archwilio sut i fwrw ymlaen â hyn, i'w ystyried gan y Pwyllgor o dan eitem FWP yn y dyfodol.</p> <p>Gofynnodd yr Aelodau i gyfleusterau'r Gwasanaethau Arlwygo gael eu rhestru i'w hystyried dan y testun 'Uwchraddio cyfleusterau ysgol hŷn...' o dan 'Eitemau Posibl i'w Rhestru' yn FWP y Pwyllgor.</p>
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	4 Rhagfyr 2023

36. Eitemau Brys

Penderfyniad a Wnaed	Dim
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	4 Rhagfyr 2023

I arsylwi trafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y dollen [hon](#) ar gyfer Rhan Un a'r ddolen [hon](#) ar gyfer Rhan Dau.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:58.